# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 21 Ionawr 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(241)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Dwristiaeth (60 munud)**
**NDM5670 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Dwristiaeth, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2014.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 14 Ionawr 2015.

**Dogfennau Ategol**
[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes]
[Ymateb Llywodraeth Cymru]

**4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NNDM5639 Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyflawni cynllun gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer anhwylder yn y sbectrwm awtistig.

2. Yn nodi bod angen gwneud mwy i ddiwallu anghenion plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru.

3. Yn credu y byddai gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn arwain at fwy o eglurder ynghylch y gofal a'r cymorth y gall pobl ag awtistiaeth ei ddisgwyl.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf Awtistiaeth ar gyfer Cymru.

**5 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5671 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi:

a) pwysigrwydd y diwydiant amaeth i economi, amgylchedd a chymunedau Cymru;

b) yr argyfwng yn y sector llaeth sy'n deillio o ostyngiad yn y prisiau llaeth a delir i ffermwyr ac ansefydlogrwydd y gadwyn laeth;

c) yr ansicrwydd o ran y taliad sylfaenol sy'n deillio o ddiddymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014 yn dilyn her barnwrol;

d) y bleidlais yn Senedd Ewrop i roi'r pŵer i aelod-wladwriaethau i awdurdodi cnydau GM i aelod-wladwriaethau, a'r ffaith mai Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am

wneud y penderfyniad yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda'r gadwyn laeth a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu'n benodol i sicrhau cynaliadwyedd hyfyw y cynhyrchwyr llaeth;

b) sicrhau adnoddau digonol ac amserlen gyraeddadwy i ddiogelu talu'r taliad sylfaenol ar 1 Rhagfyr 2015; ac

c) ail-ddatgan ei bwriad i gadw Cymru yn ddi-GM.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

y rôl ganolog y mae cynhyrchu bwyd yn ei chwarae yn y byd ffermio yng Nghymru o ystyried yr angen brys i ddiogelu'r cyflenwad bwyd.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

gweithredu mesurau rhagweithiol i hwyluso'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y sector ffermio, o ystyried proffil oedran ffermwyr yng Nghymru a'r angen i ddarparu mynediad i'r tir.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 2:

ymgysylltu ac ymgynghori'n ddigonol â rhanddeiliaid ynghylch y system dalu newydd yn dilyn diddymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014; a

ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio gyda hwy i sicrhau hyfywedd tymor hir y gwaith

o gynhyrchu bwyd a chynhyrchwyr bwyd yng Nghymru.

**6 Cyfnod pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5669 Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**

Dangos y faner goch i Gylchffordd Cymru – amlinellu'r pryderon am brosiect Cylchffordd Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Ionawr 2015